

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

**Glastir**

**Mawrth 2015**

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru](http://www.cynulliad.cymru)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565

E-bost: [SeneddArchwilio@cynulliad.cymru](mailto:SeneddArchwilio@cynulliad.cymru)

Twitter: [@SeneddArchwilio](https://twitter.com/SeneddArchwilio)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**Glastir**

**Mawrth 2015**

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yw sicrhau bod gwaith craffu cywir a thrylwyr yn cael ei wneud ar wariant Llywodraeth Cymru. Nodir swyddogaethau penodol y Pwyllgor yn Rheol Sefydlog 18. Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfrifon Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill, ac ar ba mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y caiff adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus.

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor



### **Darren Millar (Cadeirydd)**

Ceidwadwyr Cymreig  
Gorllewin Clwyd



### **William Graham**

Ceidwadwyr Cymreig  
Dwyrain De Cymru



### **Mike Hedges**

Llafur Cymru  
Dwyrain Abertawe



### **Jocelyn Davies**

Plaid Cymru  
Dwyrain De Cymru



### **Sandy Mewies**

Llafur Cymru  
Delyn



### **Julie Morgan**

Llafur Cymru  
Gogledd Caerdydd



### **Jenny Rathbone**

Llafur Cymru  
Canol Caerdydd



### **Aled Roberts**

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru  
Gogledd Cymru

---

Roedd yr Aelod canlynol hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



### **Alun Ffred Jones**

Plaid Cymru  
Arfon

# Cynnwys

---

Rhagair y Cadeirydd .....	5
Argymhellion .....	6
1. Rhagarweiniad .....	7
2. Sicrhau a mesur newidiadau mewn arferion rheoli tir.....	9
3. Mynd i'r afael ag ansawdd dŵr gwael.....	12
4. Gweinyddu'r cynllun .....	15
Ceisiadau .....	15
Gweinyddu .....	17
Arolygiadau.....	18
5. Cyfraddau cyfranogi, pennu targedau, monitro a gwerthuso.....	20
Mesur llwyddiant.....	22
Tystion.....	24
Tystiolaeth ysgrifenedig.....	24



## Rhagair y Cadeirydd

---

Dyluniwyd cynllun amaeth-amgylcheddol Glastir i wella cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwelliannau amgylcheddol ar ffermydd yng Nghymru. Dangosodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Medi 2014, er ei fod yn cyflawni mwy na chynlluniau blaenorol, y gellir gwneud rhagor o welliannau o hyd.

Yn dilyn gwaith yr Archwilydd Cyffredinol, cynhaliodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ymchwiliad byr, gan geisio tystiolaeth gan rai sefydliadau amgylcheddol a ffermio allweddol, yn ogystal â Llywodraeth Cymru. Roeddem yn canolbwyntio ar dri phrif fater: yn gyntaf, sut y gallai'r cynllun gefnogi mwy o newid mewn arferion ar ffermydd sy'n rhan o'r cynllun; yn ail, potensial y cynllun i fod yn un o amrywiaeth o ymyriadau i fynd i'r afael ag arferion gwael ar ffermydd; ac yn drydydd, a allai gwaith gweinyddol y cynllun sicrhau gwerth gwell am arian ar gyfer trethdalwyr.

Gobeithio y bydd y canfyddiadau a'r argymhellion yn ein hadroddiad yn helpu i lywio datblygiad Glastir yn y dyfodol ac yn helpu Llywodraeth Cymru, tirddeiliaid ac eraill, i hyrwyddo gwelliant amgylcheddol ym mhob rhan o'r wlad er budd pawb.

## Argymhellion

---

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyfranogiad yn Glastir Uwch yn sicrhau gwelliant gwirioneddol mewn arferion amaeth-amgylcheddol a gwelliannau i'r amgylchedd naturiol, ac nad yw ond yn atgyfnerthu arferion cyfredol. (Tudalen 11)

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ymhellach sut y mae'n nodi arfer gwael ac yn ymdrin â'r arfer hwnnw mewn perthynas ag ansawdd dŵr drwy ddefnyddio amrywiaeth o ymyriadau, gan gynnwys rheoleiddio a thalu – neu dynnu'n ôl – y cyllid cyhoeddus. (Tudalen 14)

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi pan fo materion o ran ansawdd dŵr yn codi o dir a gynhelir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac adrodd ar ba gamau adferol y mae'r sefydliad yn eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. (Tudalen 14)

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal gwerthusiad ffurfiol o brofiadau cwsmeriaid o'r broses o wneud cais ar-lein a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol os yw hyn yn rhwystr neu'n ddatgymhelliad i gymryd rhan yn y cynllun. (Tudalen 17)

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru ddadelfennu'r costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â Glastir fel y gellir deall gwerth am arian y cynllun yn glir. (Tudalen 18)

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr arolygiadau amrywiol o ffermwyr gan ei hasiantaethau wedi'u halinio pan fo'n bosibl ac y caiff data eu rhannu rhwng arolygiaethau i leihau'r aflonyddwch ar ffermwyr a sicrhau'r effeithlonrwydd gweinyddol mwyaf. (Tudalen 19)

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor erbyn hydref 2015 ynghylch y targedau heriol ond realistig y mae wedi'u pennu ar gyfer cyfranogiad Glastir, gan gynnwys y cyllidebau sy'n cyd-fynd â'r targedau. (Tudalen 22)

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru adrodd i'r Pwyllgor, neu ei olynydd, ar ei gwaith monitro a gwerthuso unwaith y mae wedi'i ddatblygu'n ddigonol, ac yn sicr erbyn mis Mai 2016. (Tudalen 23)



# 1. Rhagarweiniad

---

2. Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) ei adroddiad ar Glastir<sup>1</sup> ym mis Medi 2014. Roedd yr adroddiad yn ystyried a oedd y broses o ddatblygu a gweithredu'r cynllun amaeth-amgylcheddol wedi ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd o'r cynllun Tir Gofal a thystiolaeth o gynlluniau amaeth-amgylcheddol eraill, ac a yw wedi'i dylunio a'i gweithredu mewn ffordd sy'n hyrwyddo'r newidiadau sydd eu hangen i gyflawni amcanion y cynllun.

3. Lansiodd Glastir yn 2012, ac roedd yn disodli pedwar cynllun amaeth-amgylcheddol a oedd yn bodoli eisoes (Tir Gofal, Tir Cynnal, Tir Mynydd a'r Cynllun Ffermio Organig). Caiff ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Amaethyddol Datblygu Gwledig Ewropeaidd yr Undeb Ewropeaidd, gyda Llywodraeth Cymru yn darparu'r arian cyfatebol ar gyfer 45% o gost y cynllun. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi pum elfen y cynllun yn Atodiad 2: Glastir Sylfaenol, Glastir Uwch, Tir Comin Glastir, Grantiau Effeithlonrwydd Glastir a Choetir Glastir.

4. Canfu'r adroddiad fel a ganlyn:

- Mae nodau Glastir yn cyd-fynd â pholisïau amgylcheddol allweddol ond, er bod dyluniad y cynllun yn defnyddio'r dysgu o gynlluniau amaeth-amgylcheddol blaenorol, mae hefyd yn cadw rhai o'r diffygion;
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cryfhau ei threfniadau i weinyddu Glastir, ond mae cwmpas o hyd i wella mewn rhai meysydd; ac
- Mae cyfranogiad Glastir yn llawer is na thargedau Llywodraeth Cymru, yr oedd rhai ohonynt yn afrealistig, ac nid yw mesurau i werthuso llwyddiant y cynllun wedi'u datblygu eto.<sup>2</sup>

5. Cafodd y Pwyllgor bapur briffio ar yr adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn ei gyfarfod ar 16 Medi 2014, a phenderfynodd ofyn am ymateb gan Lywodraeth Cymru i roi ei barn ar yr adroddiad. Ar ôl ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, lle roedd yn derbyn pedwar o argymhellion yr adroddiad yn rhannol a dau yn llawn, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad byr a phenodol ar yr adroddiad hwn. Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn dystiolaeth lafar gyda Llywodraeth Cymru a gofynnwyd i randdeiliaid allweddol am dystiolaeth ysgrifenedig. Roedd y sesiwn dystiolaeth lafar gyda

---

<sup>1</sup> Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Glastir*, Medi 2014

<sup>2</sup> Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Glastir*, Medi 2014, Crynodeb tudalen 7

Gareth Jones, Cyfarwyddwr Cyffredinol Dyfodol Cynaliadwy (y Cyfarwyddwr Cyffredinol), ac Andrew Slade, Cyfarwyddwr Amaeth, Bwyd a'r Môr. Cafwyd ymatebion ysgrifenedig gan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru (NFU Cymru), y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB), a Sefydliad Gwy ac Wysg, yr oedd eu sylwadau'n cynnig awgrymiadau penodol ar gyfer y canlyniadau y dylai Glastir eu cefnogi.

6. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau gwaith y Pwyllgor ac mae'n gwneud nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru, gan adeiladu ar y rheini yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a'r hyn y clywodd y Pwyllgor mewn tystiolaeth.

## 2. Sicrhau a mesur newidiadau mewn arferion rheoli tir

7. Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol nad yw Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth am arferion rheoli ffermydd cyfredol ar y cam gwneud cais ar gyfer Glastir. Byddai'r wybodaeth hon o fudd i gefnogi proses o wneud penderfyniadau Llywodraeth Cymru ac er mwyn rhoi sicrwydd y bydd yn ofynnol i'r tirddeiliad newid ei arferion ar ôl ymuno â'r cynllun. Yn ôl adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, mae Llywodraeth Cymru yn egluro nad yw'n casglu'r wybodaeth hon gan mai'r unig ddata fyddai ar gael fyddai data hunan-gofnodedig gan tirddeiliaid ac y byddai pryderon ynghylch dibynadwyedd data o'r fath.<sup>3</sup>

8. Roedd hyn yn peri pryder i'r Archwilydd Cyffredinol: heb newidiadau i arferion rheoli tir, byddai Glastir Uwch yn annhebygol o gyflawni ei amcan o wella cefn gwlad Cymru. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn nodi bod y risg hon yn llai nag o dan gynlluniau blaenorol ac y caiff ei lliniaru ymhellach o 2015. Er enghraifft, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y cynnydd sylweddol mewn taliadau gwariant cyfalaf o gymharu â thaliadau rheoli a fydd yn lleihau'r risg o bwysau marw.

9. Roedd Argymhelliad 1 o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu mynd i'r afael â'r pryderon hyn. Roedd yn dweud, gan ddefnyddio unrhyw wybodaeth a phrofiad o gynlluniau amaeth-amgylcheddol a gynhelir gan awdurdodaethau eraill, y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu dull ar gyfer Glastir Uwch i sicrhau, yn gyfnewid am arian grant, bod tirddeiliaid yn ymrwymo i wneud newidiadau sylweddol i'w harferion rheoli tir sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion Glastir yn uniongyrchol.

10. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn yn rhannol, gan gydnabod ei bod yn hanfodol bod cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn talu i ddarparu nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol a chyflawni newid gwirioneddol. Fodd bynnag, cred Llywodraeth Cymru:

“[M]anagement payments should continue to have a rightful place in agri-environment activity and that under some circumstances payments for the maintenance of status quo favourable environmental practices should continue, particularly where there is a risk these favourable practices would be discontinued without the incentive of support payments.”<sup>4</sup>

---

<sup>3</sup> Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Glastir*, Medi 2014, tudalen 7, paragraff 10

<sup>4</sup> Llythyr gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol Cyfoeth Naturiol at y Pwyllgor, 3 Tachwedd 2014

11. Roedd gan y Pwyllgor nifer o bryderon ynghylch yr arfer o barhau gyda thaliadau cynnal, sy'n golygu na chaiff arferion gwaith, o reidrwydd, eu newid, yn arbennig o ystyried nodau Glastir i hyrwyddo defnydd amgylcheddol a chynaliadwy o dir. Eglurodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol ei fod yn ystyried bod taliadau cynnal yn bwysig oherwydd:

“First, maintenance payments are paid to farmers to ensure that they continue to keep their land in good environmental condition and that they continue to provide good environmental stewardship of their land over a long period of time. Some of these environmental changes take many, many years to come to fruition. Maintenance payments are also paid to farmers where it may look as though very little is changing, but actually their practices are changing. Perhaps I could give you an example, Chair. A maintenance payment may well be paid to a farmer to maintain a hay meadow for example that he might then cut later than he would otherwise have done. In those circumstances, we get not just the environmental benefits of that in terms of pollinators in particular, but the farmer does actually forgo some potential income that he might have got earlier on in the process. The third thing, and I think perhaps the most powerful thing, to say about maintenance payments, is that they provide an incentive for farmers to retain land in high-quality environmental stewardship. At times when commodity prices are particularly good, as we know, we do not want farmers who have high-quality environmental land to be tempted towards intensification of livestock farming, and, when commodity prices are very good, there is always that possibility that farmers will come out of these multi-annual agreements and move back into livestock farming practices.”<sup>5</sup>

12. Ymddengys NFU Cymru yn gefnogol o safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â hyn.<sup>6</sup> Nodwyd fod opsiynau cynnal, ynghyd â chynnwys ffermwyr mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol, yn sicrhau y caiff cynefinoedd cyfredol eu gwarchod – a all fod yn sicrhau buddsoddiad blaenorol. Dadleuwyd y dylid ystyried yr argymhelliad hwn mewn cyd-destun ehangach, yn enwedig diwygio Colofn 1 o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.

13. Nododd yr RSPB<sup>7</sup> y gwnaed argymhelliad tebyg i hwn yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ym mis Tachwedd 2007 ar y cynllun Tir Gofal.

---

<sup>5</sup> Cofnod y Trafodion, 2 Rhagfyr 2014, paragraff 9

<sup>6</sup> Ymateb NFU Cymru i'r ymgynghoriad, 19 November 2014

<sup>7</sup> Sylwadau RSPB Cymru ar adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ac ymateb Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2014

Roedd RSPB yn pryderu nad oedd tystiolaeth y byddai ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at Glastir yn arwain at newid mawr o ran rheoli tir yr oedd ei angen ar eu hamcanion amgylcheddol.

14. Mewn gohebiaeth bellach,<sup>8</sup> cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y gwnaeth 20% o'r ffermydd y cysylltodd Llywodraeth Cymru â hwy i ymuno â Glastir Uwch wrthod cymryd rhan yn y gweithgareddau gofynnol (byddai'r ffermydd hyn eisoes yn cymryd rhan yn Glastir Sylfaenol, neu wedi cymryd rhan yn y cynllun Tir Gofal o'r blaen). O ystyried y cyfranogiad isel, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau pellach i annog cyfranogiad yn y cynllun.

15. Gan nodi'r sefyllfa well o'r cynlluniau blaenorol, mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw taliadau cynnal ar gyfer parhau gyda stiwardiaeth amgylcheddol da, er eu bod yn ganmoladwy, yn darparu sicrwydd y bydd Glastir yn cefnogi amcanion Llywodraeth Cymru yn ddigonol - yn arbennig mewn perthynas â Glastir Uwch.

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyfranogiad yn Glastir Uwch yn sicrhau gwelliant gwirioneddol mewn arferion amaeth-amgylcheddol a gwelliannau i'r amgylchedd naturiol, ac nad yw ond yn atgyfnerthu arferion cyfredol.**

---

<sup>8</sup> Llythyr gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol Cyfoeth Naturiol at y Pwyllgor, 8 Ionawr 2015

### 3. Mynd i'r afael ag ansawdd dŵr gwael

---

16. Un pryder sylweddol yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol oedd bod risg o fethu â mynd i'r afael ag arferion amaethyddol gwael ar nifer fach o ffermydd y gallant fod yn gyfrifol am broblemau ehangach o ran ansawdd dŵr. Argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol (Argymhelliad 2 o'i adroddiad) y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu dull yn seiliedig ar risg i nodi a thargedu ymyriadau priodol mewn ffermydd lle mae arferion amaethyddol gwael yn gyfrifol am achosi problemau ehangach o ran ansawdd dŵr. Derbyniodd Llywodraeth Cymru hyn yn rhannol, ac awgrymodd er bod Glastir wedi gwella ansawdd dŵr na fyddai'n cynrychioli gwerth am arian targedu cymorth Glastir fel hyn, ac y gallai hyd yn oed arwain at wobrwyo rheolaeth wael neu esgeulustra. Dyma farn y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar fynd i'r afael ag arfer gwael:

“[T]he whole question of agricultural bad practice, if you like, rather than agricultural benefit, is one where I am very clear that, first, we should not be paying for people to, effectively, drag themselves out of bad practice, and, secondly, that regulation is actually the way to deal with people who employ bad practices on their farms.”<sup>9</sup>

17. Amlygodd NFU Cymru yn ei ymateb ysgrifenedig y gellir olrhain rhai o fethiannau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn ôl i dir o dan berchnogaeth gyhoeddus ac o dan reolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru.<sup>10</sup> Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol nad oedd yn ymwybodol o'r dystiolaeth hon:

“I do not have that evidence. It is true to say that there is a mixture of landowners who will be polluting at levels that breach the water framework directive. Glastir, of course, provides an opportunity for the improvement of run-off from farms. I have seen examples where farmers have dug significant ponds to hold run-off so that it is diluted in terms of the diffuse pollution that it provides. However, I do not have the evidence available to say whether or not farmers or public land is responsible, principally, for any breaches of the directive.”

**Jenny Rathbone:** “It is something that I think probably the public would like to know...”

---

<sup>9</sup> Cofnod y Trafodion, 2 Rhagfyr 2014, paragraff 53

<sup>10</sup> Ymateb NFU Cymru i'r ymgynghoriad, 19 Tachwedd 2014

**Mr Jones:** “Yes, I would like to know, too, because the public land in question is owned by the Welsh Government. It is looked after by Natural Resources Wales, but it is actually our land. So, if that is true, I would be interested to see the evidence. I will certainly talk to the NFU about that.”<sup>11</sup>

18. Mewn gohebiaeth bellach â'r Pwyllgor,<sup>12</sup> awgrymodd NFU Cymru fod hyd at 9.5% o fethiannau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr wedi'u priodoli i goedwigaeth, o gymharu â 15% ar gyfer amaethyddiaeth. Hoffai'r Pwyllgor gael sicrwydd gan Lywodraeth Cymru ei bod yn gweithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod unrhyw dir a reolir ganddo yn cael ei gynnal a'i fod yn cydymffurfio â'r gofynion o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau y gellir dwyn i gyfrif unrhyw un arall sy'n mynd yn groes i'r gyfarwyddeb hon.

19. Roedd yr RSPB yn gefnogol o Lywodraeth Cymru yn defnyddio rheoliadau i orfodi egwyddor y llygrwr sy'n talu.<sup>13</sup> Roedd hefyd yn cefnogi'r syniad o Glastir yn darparu ychwanegolrwydd, y tu hwnt i gefnogi arferion cyfredol, i sicrhau'r gwelliannau mwyaf mewn arferion amaethyddol – gan nodi bod cefnogi arferion cyfredol wedi achosi Cymru i fethu â bodloni'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Rydym yn cytuno gyda'r defnydd o reoliadau er mwyn mynd i'r afael i ddechrau â'r pryderon ynghylch ansawdd dŵr er mwyn atgyfnerthu'r hyn y mae'r RSPB yn ei alw'n 'egwyddor y llygrwr sy'n talu'. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi argymhelliad y Cyfarwyddwr Cyffredinol bod hyn yn cael ei ystyried fel rhan o ystod o ymyriadau. Felly, cred y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio ei hymateb i'r argymhelliad hwn er mwyn ei dderbyn yn llawn fel bod gan Glastir rôl glir yn y broses o fynd i'r afael â'r materion ansawdd dŵr pwysig hyn.

20. Wrth ymateb i adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, roedd Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu'r syniad o wobrwyo arfer gwael ond nododd hefyd nad oedd ganddi fynediad at wybodaeth am ffermydd unigol sy'n cyfrannu at broblemau ehangach o ran ansawdd dŵr. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad pellach o'r graddau y gall Llywodraeth Cymru gael mynediad at wybodaeth o'r fath gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac Arolygiaeth Wledig Cymru. O ystyried cyfrifoldebau sefydliadau gwahanol ar gyfer monitro ac atal arferion gwael o ran rheoli tir neu esgeulustra, byddai'r Pwyllgor yn disgwyl i sefydliadau gydweithredu a rhannu gwybodaeth yn rheolaidd, er mwyn

---

<sup>11</sup> Cofnod y Trafodion, 2 Rhagfyr 2014, paragraffau 61-3

<sup>12</sup> Ymateb NFU Cymru i'r ymgynghoriad, 8 Ionawr 2015

<sup>13</sup> Sylwadau RSPB Cymru ar adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ac ymateb Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2014

cynyddu effeithlonrwydd a lleihau'r aflonyddwch ar ffermwyr. Trafodir hyn ymhellach isod ym mharagraffau 33-36.

21. Fel y materion y sonir amdanynt uchod mewn perthynas â defnyddio Glastir i wella arferion, cred y Pwyllgor y gellid defnyddio'r cynllun ei hun i fynd i'r afael â materion ynghylch ansawdd dŵr, yn ogystal â'r gyfundrefn arolygu reoleiddiol, yn arbennig o ystyried nad yw pob arfer gwael yn anghyfreithlon. Rydym o'r farn y dylid hefyd ddefnyddio ystod ehangach o ymyriadau, gan gynnwys, o bosibl, tynnu cyllid cyhoeddus yn ôl, fel adnoddau i sicrhau a hyrwyddo arfer da a mynd i'r afael â'r materion o ran ansawdd dŵr.

**Argymhelliad:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ymhellach sut y mae'n nodi arfer gwael ac yn ymdrin â'r arfer hwnnw mewn perthynas ag ansawdd dŵr drwy ddefnyddio amrywiaeth o ymyriadau, gan gynnwys rheoleiddio a thalu – neu dynnu'n ôl – y cyllid cyhoeddus.

**Argymhelliad:** Dylai Llywodraeth Cymru nodi pan fo materion o ran ansawdd dŵr yn codi o dir a gynhelir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac adrodd ar ba gamau adferol y mae'r sefydliad yn eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.



## 4. Gweinyddu'r cynllun

---

### Ceisiadau

22. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru geisiadau ar-lein yn unig ar gyfer Glastir Uwch a Glastir Organig, gyda chynlluniau eraill Glastir yn cael eu gwneud ar gael ar-lein yn unig dros amser. Disgwylir i geisiadau Glastir fod ar-lein yn gyfan gwbl erbyn diwedd 2016-17. Mae pryderon wedi'u codi gan randdeiliaid y gall hyn atal rhai pobl rhag gwneud cais oherwydd materion sy'n ymwneud â mynediad at fand eang a medrusrwydd o ran TG.

23. Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol y byddai cymorth TG yn cael ei wneud ar gael i ymgeiswyr ond nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau union natur y cymorth hwn eto.

24. Yn ogystal â'r pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, yn ei ymateb ysgrifenedig i'r Pwyllgor, mynegodd NFU Cymru bryder hefyd ynghylch yr amser sydd ar gael ar gyfer ceisiadau ar-lein, oherwydd erbyn i'r ymgeiswyr gael gafael ar y cymorth angenrheidiol, mae'n aml yn defnyddio'r rhan fwyaf o'r amserlen ar gyfer gwneud cais.<sup>14</sup> Pan holwyd Llywodraeth Cymru ynghylch hyn, awgrymodd Llywodraeth Cymru, ni waeth beth yw'r amserlen, mae pobl yn aml yn gadael ceisiadau tan y funud olaf.

25. Pan holodd y Pwyllgor y Cyfarwyddwr Cyffredinol ynghylch y broses ymgeisio, cafodd wybod y canlynol:

“I think that it is a fair criticism that we, at the outset, made it rather complex for people to apply for Glastir. I have spent time sitting with a contract manager and a cartographer, and I have spoken to farmers about the experience that they have had. Even from a relative layman's perspective, I have found it quite complex for people to go through the application process.

“Again, there is a balance in all of this. We have to get sufficient sign-up by the farmer, sufficient buy-in by the farmer, and sufficient rigour in the process to be able to demonstrate to the Commission that we are getting real environmental benefit from the money that is being paid out. Otherwise, as I have said before, there can be very significant penalties. Having said that, I am all in favour of simplicity. If one looks at the recent Glastir Organic online application process

---

<sup>14</sup> Ymateb NFU Cymru i'r ymgynghoriad, 19 Tachwedd 2014

that farmers went through—and 580-odd of them went through very successfully earlier this year—I think that that is an example of how you can make something simple and digital at the same time, and therefore efficient, by really bearing down on the complexity that has the potential to weave itself into the system. I was absolutely delighted to see 99.75% of applications for Glastir Organic done online. That is an extraordinary achievement from a complete zero base, particularly when you take into account that only 5% of those farmers who applied for Glastir Organic had to seek some sort of digital assistance from our divisional officers and from our staff.”<sup>15</sup>

26. Pan holwyd y Cyfarwyddwr Cyffredinol ymhellach ynghylch gofynion y Comisiwn Ewropeaidd a'r materion ehangach o ran mynediad TG, dywedodd:

“We can look at the length of the application window within the contexts of the rules that are set for us by the European Commission, Chair. I do sympathise greatly with those who are digitally excluded, for whatever reason. It may be because of a lack of broadband coverage—as you will know, the Welsh Government is doing a great deal to roll out broadband across Wales—but it could be as a result of simply being of a generation or of a nature that they do not want to get involved in online applications. It is those people who are digitally excluded, for whatever reason, that I think that we, as a Government, have a responsibility to help. We have a great record, I think, in my department of providing help with on-farm farm liaison officers, with events at local communities, and with individual divisional officers who are providing help and guidance to people. I most certainly will want to see that continuing.”<sup>16</sup>

27. Rhoddodd Llywodraeth Cymru ragor o wybodaeth am ei hymdrechion i helpu ceisiadau ar-lein mewn gohebiaeth gyda'r Pwyllgor – roedd hyn yn cynnwys cymorth dros y ffôn a wyneb-yn-wyneb, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o'r cynlluniau Cyflymu Cymru ac Allwedd Band Eang Cymru.<sup>17</sup>

28. Cred y Pwyllgor fel rhan o waith Llywodraeth Cymru yn casglu tystiolaeth am brofiadau pobl yn cyflwyno ceisiadau ar-lein, y dylid gofyn cwestiynau penodol ynghylch yr amserlen a'r mynediad at gymorth er mwyn sicrhau nad yw symud i geisiadau ar-lein yn arwain at nifer o ymgeiswyr posibl yn methu â chymryd rhan yn y cynlluniau.

---

<sup>15</sup> Cofnod y Trafodion, 2 Rhagfyr 2014, paragraffau 112-3

<sup>16</sup> Cofnod y Trafodion, 2 Rhagfyr 2014, paragraff 116

<sup>17</sup> Llythyr gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol Cyfoeth Naturiol at y Pwyllgor, 8 Ionawr 2015

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru gynnal gwerthusiad ffurfiol o brofiadau cwsmeriaid o'r broses o wneud cais ar-lein a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol os yw hyn yn rhwystr neu'n ddatgymhelliad i gymryd rhan yn y cynllun.**

### **Gweinyddu**

29. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu dull timau aml-sgil i ddarparu'r cynlluniau y mae'n eu gweithredu o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fod hyn yn arwain at Lywodraeth Cymru yn methu â chyfrifo'r costau gweinyddol ar gyfer cydrannau unigol o Glastir yn llawn.

30. Roedd gan y Pwyllgor nifer o bryderon ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn asesu gwerth am arian cyffredinol gwaith gweinyddol Glastir heb werthfawrogiad clir o'r costau gweinyddol ar gyfer pob cydran. Mewn ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor ynghylch hyn, dywedodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol wrth y Pwyllgor:

“...You are right to say that, at the moment, we cannot disaggregate the costs of Glastir from the multiskilled teams, compared to the cost of everything else that they do, in terms of Common Agricultural Policy payments—both Pillar 1 and Pillar 2. I was head of the department when we introduced multiskilled teams, back in the early 2000s. I still believe that it is absolutely the right thing to do, because it provides a variety of functions and varied jobs for people. It is more efficient, because it smoothes out the peaks and troughs in people’s work and it gives people the opportunity to have better relationships with our stakeholders, with farming communities, because they are not just dealing with their Pillar 1 payments—if a farmer rings up with an issue on his farm, he can talk to an individual who can talk to him about either his Pillar 1 payment or his Pillar 2 payments.

“Having said that, I think that the Wales Audit Office has a point here in terms of our being able to better benchmark our efficiency in running agri-environment schemes compared with others. I am pretty confident that we will come out well here compared with others who deliver it, but I have asked the teams to do some work on trying to apportion the amount of time and effort that goes into Glastir, compared with the other work that they do within those multiskilled teams. That will take us some time to do. I do not want us to go down the full time-recording process, because I think that that is

costly and it is demotivating for staff to have to do that, but there is, I think, some halfway point to which we can come to try to apportion our costs. I would be happy to let you have a note on that once we have come up with some figures.”<sup>18</sup>

31. Er ein bod yn cydnabod y gellir sicrhau arbedion posibl o'r dull timau aml-sgil, mae'r Pwyllgor yn pryderu o hyd na ellir nodi'r gost o weinyddu Glastir a'i bod, oherwydd hynny, yn anodd dangos y ceir gwerth am arian.

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru ddadelfennu'r costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â Glastir fel y gellir deall gwerth am arian y cynllun yn glir.**

### **Arolygiadau**

32. Mynegodd y Pwyllgor bryderon ffermwyr gyda Llywodraeth Cymru ynghylch nifer yr arolygiadau a gynhelir, er enghraifft, arolygiadau sy'n ymwneud â'u cyfranogiad yn Glastir ynghyd â'r rheini gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Dyma ymateb y Cyfarwyddwr Cyffredinol:

“I cannot give you the exact numbers of inspectors who are doing Glastir inspections. The number of our inspectors, or our field inspection staff in total, is something like between 40 and 50. We also have a number of commons development officers, as the report makes clear, and, as the report also makes clear, those are going to begin—in fact, have already begun—to be trained and developed to do some broader work, particularly with groups of farmers in Wales. I do not think that I would accept that we adopt a heavy-handed approach to inspection. The vast majority of farmers I talk to are very complimentary about the way in which our inspectors work with them. Looking, for example, at the rates of penalties, across Wales, as a result of the inspections that take place, they are relatively small both in terms of cash and numbers. So, I would not agree that we have a heavy-handed approach. We are trying very hard to work with other agencies, in terms of our inspection effort. The one thing I do not want to see is, one day, one of my inspectors arriving on a farm, and then, the next day, a Natural Resources Wales inspector turning up, and, another day, a health and safety inspector coming there.”

**Alun Ffred Jones:** “I think that that was the criticism.”

---

<sup>18</sup> Cofnod y Trafodion, 2 Rhagyr 2014, paragraffau 130-1

**Mr Jones:** “And you are right—it does happen. We want to continue to work hard with those other agencies, to make sure that we work together, so that farmers can get on with running their businesses, and farming, and not spend their whole time feeling that they have to account to us for the compliance of their work. Having said that, Chair, the European Union is very stringent in the rules that it applies, and is very, very able to apply significant levels of disallowance—that is, to reduce the amount of cash that comes to Wales as a result of our subsidy payments. Wales has an enviable record in terms of disallowance. Our rates of disallowance, compared with other UK countries, are minuscule, and our rates of disallowance, compared with other European countries, are extremely small indeed.”<sup>19</sup>

33. Mewn trafodaethau eraill, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol ei fod yn rhannu ei raglen arolygu â Cyfoeth Naturiol Cymru ac asiantaethau eraill sy'n ymwneud ag arolygiadau.<sup>20</sup>

34. Mewn gohebiaeth bellach gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol,<sup>21</sup> nodwyd fod arolygiad arferol Glastir ar gyfer Sylfaenol/Uwch yn 2014 yn bedwar diwrnod o amser person. Mae hyn yn cynnwys yr amser paratoi, yr arolygiad ei hun ac ysgrifennu'r adroddiad. Yn amlwg, daw'r ffigur cyfartalog hwn o amrywiaeth o feintiau fferm. Cred y Pwyllgor fod posibilrwydd o gynyddu effeithlonrwydd arolygiadau drwy gydweithredu a rhannu data yn well.

35. Drwy gydnabod bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi nodi ei fod yn gweithio gydag asiantaethau eraill i leihau aflonyddwch arolygiadau ar ffermwyr, byddai'r Pwyllgor yn croesawu mwy o ymdrech i alinio cyfundrefnau arolygu.

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr arolygiadau amrywiol o ffermwyr gan ei hasiantaethau wedi'u halinio pan fo'n bosibl ac y caiff data eu rhannu rhwng arolygiaethau i leihau'r aflonyddwch ar ffermwyr a sicrhau'r effeithlonrwydd gweinyddol mwyaf.**

---

<sup>19</sup> Cofnod y Trafodion, 2 Rhagfyr 2014, paragraffau 44-6

<sup>20</sup> Cofnod y Trafodion, 2 Rhagfyr 2014, paragraffau 47-50

<sup>21</sup> Llythyr gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol Cyfoeth Naturiol at y Pwyllgor, 8 Ionawr 2015

## 5. Cyfraddau cyfranogi, pennu targedau, monitro a gwerthuso

---

36. Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fod Llywodraeth Cymru wedi methu â chyrraedd y rhan fwyaf o'r targedau a bennwyd ar gyfer pum elfen Glastir. Noda'r adroddiad fel a ganlyn:

“As at 31 December 2013, the Welsh Government had missed most of these targets, only achieving some of the targets for woodland creation. For example, only 2,190 Glastir Entry contracts had been agreed by 31 December 2013 compared with the target of 7,000 contracts, although an additional 2,382 Glastir Entry contracts had been agreed to start on 1 January 2014. In addition, for Glastir Advanced the Welsh Government had agreed 291 contracts to start on 1 January 2013, compared with its target of 500 contracts.”<sup>22</sup>

37. I fynd i'r afael â'r pryderon yn y maes hwn, roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn argymhell y canlynol (argymhelliad 5):

“Roedd Argymhelliad 5 o adroddiad yr Archwilydd yn dweud y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei thargedau ar gyfer Glastir er mwyn sicrhau bod sylfaen dystiolaeth ddigonol i gefnogi pob targed, ac i sicrhau bod y targedau yn heriol ond yn gyraeddadwy, yn fforddiadwy ac yn adlewyrchu graddfa'r newid y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r cynllun ei gyflawni. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd sicrhau bod ei thargedau mewnol ar gyfer Glastir yn gyson â'r targedau y mae wedi cytuno arnynt â'r Comisiwn Ewropeaidd.”<sup>23</sup>

38. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn yn rhannol, gan nodi ei bod yn derbyn canfyddiadau'r adroddiad bod y targedau cychwynnol ar gyfer y cynllun yn afrealistig o gymharu â'r hyn y gellid ei ddisgwyl yn seiliedig ar ddadansoddiad o gyfranogiad hanesyddol mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn pennu targedau diwygiedig ar gyfer nifer y bobl sy'n cael pob elfen o'r cynllun Glastir ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig newydd unwaith y bydd y dyraniad cyllideb i Glastir wedi'i gwblhau, ac yn rhoi manylion am y polisi y tu ôl y targedau hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio nad yw bob amser yn bosibl drwy gydol y rhaglen i sicrhau bod y targedau mewn

---

<sup>22</sup> Cyfarwyddwr Cyffredinol Cymru, *Glastir*, Medi 2014, paragraffau 3.1-3.10

<sup>23</sup> Cyfarwyddwr Cyffredinol Cymru, *Glastir*, Medi 2014, paragraffau 3.1-3.10

dogfennaeth a ddelir gan y Comisiwn Ewropeaidd yn gyson â thargedau Llywodraeth Cymru.

39. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor,<sup>24</sup> mynegodd NFU Cymru rai pryderon ynghylch y dull a amlinellir gan y Llywodraeth oherwydd y canlynol:

“Previous forecasting by Welsh Government of scheme uptake has been woeful and if this approach is adopted, we foresee a significant allocation of much needed RDP resource ring-fenced and held within the budget for land-based measures and not utilised elsewhere. We would refer to the budget allocated to Sustainable Production Grant as an example. NFU Cymru would argue that the current allocation is inadequate for industry needs and does not adequately acknowledge the fact that measures/interventions that contribute to efficiencies in production will also deliver ‘additionality’ in the form of wider environmental/climate change benefits.

“We would agree with the findings of the WAO report, in that it is vital that targets are challenging yet achievable, affordable and reflect the scale of the change Welsh Government is expecting the scheme to deliver. We would reiterate that there is a need to recognise that delivery of environmental actions on the ground relies on the development and implementation of agri-environment schemes like Glastir that farmers are willing and able to participate in. It is also vital that all farmers who wish to join a farm-scale agri-environment scheme are able to do so.”

40. Aeth NFU Cymru yn ei flaen i awgrymu pam y gall cyfranogiad fod yn is na'r disgwyl, gan awgrymu cymhlethdod proses gwneud cais Glastir Sylfaenol, diffyg canfyddedig o dryloywder proses gwneud cais Glastir Uwch, a'r baich gweinyddol ar ffermwyr sy'n cymryd rhan yn y cynllun.

41. Nododd yr RSPB fod ymateb Llywodraeth Cymru yn ymwneud yn bennaf â phennu targedau o ran cyfranogiad Glastir, ond y cred y dylai'r cynllun ei hun gael ei dargedu fwy tuag at gymryd camau gweithredu cadarnhaol a all wella arferion amgylcheddol.<sup>25</sup>

42. Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol am bennu targedau realistig a dywedodd:

---

<sup>24</sup> Ymateb NFU Cymru i'r ymgynghoriad, 19 Tachwedd 2014

<sup>25</sup> Sylwadau RSPB Cymru ar adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ac ymateb Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2014

“it is true to say that we are not reaching the targets that were originally set out for the scheme. Members will know that the original target for Glastir was to try to reach around 14,000 agreements. Over time, it has become clear that that particular target was unlikely to be reached and, in the event, events conspired against that target being reached. In the very early days of Glastir, again, as Members will know, there was a great deal of pressure from farming unions to extend the provisions of Tir Gofal. There was a great deal of pressure from the farming unions to extend Tir Mynydd, which, although not an agri-environment scheme, was a less favoured area scheme—it was a scheme for upland farmers. It is true to say, I think, that the extension of those schemes had a detrimental effect on the take-up of Glastir in the early days.”<sup>26</sup>

43. Awgrymodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod y prisiau nwyddau mwy ffafriol o 2008-09 ymlaen wedi arwain at leihau cymhelliant ffermwyr i gymryd rhan mewn cynllun amaeth-amgylcheddol o gymharu â phan oedd prisiau nwyddau'n is a ffynonellau incwm eraill yn fwy deniadol.<sup>27</sup>

44. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol ei bod yn adolygu ei thargedau ar gyfer cyfranogiad Glastir, ac yr hoffai ailystyried y mater i sicrhau bod y targedau diwygiedig yn heriol, ond hefyd yn realistig.

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor erbyn hydref 2015 ynghylch y targedau heriol ond realistig y mae wedi'u pennu ar gyfer cyfranogiad Glastir, gan gynnwys y cyllidebau sy'n cydfynd â'r targedau.**

### **Mesur llwyddiant**

45. Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fod gan Lywodraeth Cymru raglen monitro a gwerthuso helaeth, ond nad yw wedi datblygu meini prawf llwyddiant eto i ddangos a yw Glastir yn cyflawni ei amcanion.<sup>28</sup> Gwnaeth consortiwm a gomisiynwyd i ddarparu rhaglen monitro a gwerthuso Glastir gwblhau ymarfer modelu ym mis Mawrth 2014 i asesu effeithiau disgwylidiedig cyfuno ymyriadau gwahanol mewn ffermydd. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio canlyniadau'r ymarfer modelu i lywio penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch dyluniad Glastir Sylfaenol.

---

<sup>26</sup> Cofnod y Trafodion, 2 Rhagfyr 2014, paragraff 41

<sup>27</sup> Cofnod y Trafodion, 2 Rhagfyr 2014, paragraff 42

<sup>28</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 3.11 i 3.27



46. Roedd Argymhelliad 6 o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio canlyniadau ymarfer modelu effaith mis Mawrth 2014 er mwyn helpu i fesur graddfa'r gwelliannau y mae'n disgwyl i Glastir eu cyflawni. Drwy bennu targedau priodol ar gyfer y cynllun, dylai Llywodraeth Cymru hefyd bennu sut ac erbyn pryd y mae'n disgwyl i Glastir gyflawni ei amcanion a chyfrannu at amcanion ehangach fel y rhai sydd yn *Strategaeth Amgylcheddol Cymru*.

47. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn yn llawn gan nodi bod y sylfaen dystiolaeth wyddonol sy'n ofynnol ar gyfer mesur y lefel o newid amgylcheddol o weithgareddau amaeth-amgylcheddol yn aml wedi'i sefydlu braidd yn wael. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn, er mwyn i lwyddiant Glastir gael ei werthuso'n effeithiol, bod angen gwneud ymgais i fesur newidiadau y gellid eu disgwyl. Mae'r ymateb yn egluro bod Rhaglen 'arloesol' Monitro a Gwerthuso Glastir yn defnyddio technegau modelu uwch i ragfynegi canlyniadau amgylcheddol yn seiliedig ar senarios cyfranogiad y cynllun a newidiadau disgwyliedig i ddefnydd tir. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd swyddogion yn gweithio'n agos gyda thîm y rhaglen monitro a gwerthuso a rhanddeiliaid sydd â diddordeb i nodi targedau meintiol ar gyfer y rhaglen nesaf. Croesawodd yr RSPB yr ymrwymiad hwn yn ei gyfraniad i'r Pwyllgor, a chytunodd â'r pryderon ynghylch monitro a gwerthuso.<sup>29</sup>

48. Clywodd y Pwyllgor gan y Cyfarwyddwr (Mr Slade) mewn tystiolaeth lafar fod Llywodraeth Cymru yn hyderus ynghylch eu gwaith monitro a gwerthuso.

"...[W]e are two or three years into what I think around Europe is regarded as a pretty strong set of arrangements on monitoring and evaluation. We have had a lot of people across Europe interested. A Finnish delegation recently talked to us about how we have been developing the scheme and what we intend to get out of it, and the Centre for Ecology and Hydrology in Bangor, as Gareth just mentioned, has done a lot of work to develop the approach. We are going to carry on with that, moving forward."<sup>30</sup>

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru adrodd i'r Pwyllgor, neu ei olynydd, ar ei gwaith monitro a gwerthuso unwaith y mae wedi'i ddatblygu'n ddigonol, ac yn sicr erbyn mis Mai 2016.**

---

<sup>29</sup> Sylwadau RSPB Cymru ar adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ac ymateb Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2014

<sup>30</sup> Cofnod y Trafodion, 2 Rhagfyr 2014, paragraff 25

## Tystion

---

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgorau ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yn [www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=1311](http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=1311)

*Dydd Mawrth 2 Rhagfyr 2014*

Gareth Jones      Cyfarwyddwr Cyffredinol Cyfoeth Naturiol, Llywodraeth Cymru

Andrew Slade      Cyfarwyddwr Amaeth, Bwyd a'r Môr, Llywodraeth Cymru

## Tystiolaeth ysgrifenedig

---

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn [www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=10716&Opt=0](http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=10716&Opt=0)

Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru

Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB)

Sefydliad Gwy ac Wysg